



# YMA I CHI

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2021/22

# Cynnwys

Yma i chi: Ein rôl	4
Darparu cymwysterau, asesiadau, a chefnogaeth o'r radd flaenaf	6
Llunio dyfodol addysg yng Nghymru	12
Gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth	22
Buddsoddi yn ein pobl a'n planed	26

# Croeso



**Ian Morgan**  
Prif Weithredwr

Wrth edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf, rwy'n teimlo'n hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni fel corff. Er gwaethaf yr heriau, rydym wedi parhau i fod yn driw i'n gweledigaeth ac wedi parhau i gynnig cefnogaeth arbenigol a chymwysterau y gellir ymddiried ynddynt i ysgolion a cholegau, gan alluogi dysgwyr Cymru i gyflawni eu potensial yn llawn.

Wrth gwrs, roedd dychwelyd i asesu'n allanol yn dasg sylweddol i ni, ac roedd angen cefnogaeth y gymuned addysg gyfan. Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn dangos y gwaith helaeth a wnaeth ein timau drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod arholiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol yn 2022.

Hefyd, mae'r gwaith o ddatblygu cymwysterau'n mynd rhagddo'n gadarnhaol gennym. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos â Cymwysterau Cymru ar gymwysterau Cymwys ar Gyfer y Dyfodol, paratoi, datblygu a chyflwyno cymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, a chyfres newydd o gymwysterau galwedigaethol. Fel corff rydym hefyd wedi dathlu amrywiaeth o gyflawniadau a cherrig milltir pwysig gan gynnwys ennill achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl a gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i lansio'r cynllun bwrsari myfyrwyr cyfrwng Cymraeg newydd er cof am ein cyn Brif Weithredwr, Gareth Pierce.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein hadolygiad blynyddol ac y byddwch yn parhau i ddilyn ac ymgysylltu â'n gwaith dros y flwyddyn i ddod. Gallwn eich sicrhau y byddwch yn derbyn y lefelau uchaf un o gefnogaeth, cyngor, ac arweiniad gennym.

*Ian Morgan*



**Joanna Moonan**  
Cadeirydd Bwrdd  
Cyfarwyddwyr CBAC

Wrth ddychwelyd i'r drefn arholiadau, mae CBAC unwaith eto wedi dangos ei ymrwymiad i gefnogi ysgolion a cholegau bob cam o'r ffordd. Gan oresgyn yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, mae timau ar draws y corff yn parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn y maent yn ei wybod, ei ddeall, ac yn gallu ei wneud.

Mae timau ymroddedig CBAC wedi ymgynghori'n eang ac wedi gwrandao ar randdeiliaid i ddatblygu pecyn cynhwysfawr o fesurau a chefnogaeth ar gyfer addysgu a dysgu er mwyn gwneud yn siŵr bod yr asesu a'r graddio wedi bod mod deg â phosibl eleni.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn dangos gallu CBAC i addasu i amgylchiadau sy'n newid, tra'n anrhydeddu eu traddodiad o ddarparu cefnogaeth ac arweiniad o safon. Yn ogystal â bod ar flaen y gad o ran asesiadau, mae timau ar draws y corff wedi parhau i ddatblygu cymwysterau, adnoddau, a hyfforddiant newydd i gynorthwyo addysgu a dysgu ledled Cymru. A ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr, hoffwn ddiolch i'r ysgolion, y colegau a chydweithwyr CBAC am eu holl waith caled ac ymrwymiad yn ystod y flwyddyn heriol hon. Rydym yn hyderus y bydd CBAC yn parhau i fod yn arweinydd o fewn y sector addysg, gan osod y safonau uchaf i eraill eu dilyn.

*Joanna Moonan*

# Yma i chi: Ein rôl



## Darparu cymwysterau a chefnogaeth o'r radd flaenaf i athrawon a dysgwyr ledled Cymru

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, rydym yn darparu cymwysterau dwyieithog y gellir ymddiried ynddynt, cefnogaeth arbenigol uniongyrchol, ac asesu dibynadwy i ysgolion a cholegau ar draws y wlad.

Fel elusen, rydym wedi ymrwymo i barhau i wella'r gefnogaeth, yr adnoddau a'r cymwysterau yr ydym yn eu darparu i ysgolion, colegau a dysgwyr.

Darganfod mwy: [www.cbac.co.uk/elusen](http://www.cbac.co.uk/elusen)

Gyda dros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Trwy weithio mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid ar draws ein cymunedau addysg, gan gynnwys ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, a Cymwysterau Cymru, rydym ni wedi ymrwymo i chwarae rhan ganolog o ran cefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau 'bod gan Gymru system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol'

## Cymwysterau wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr Cymru

Mae ein cymwysterau wedi'u cydnabod yn rhyngwladol ac maent wedi'u llunio yn ofalus i roi cyfle i ddysgwyr ddangos yr hyn maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud - gan sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau, gan gynnwys addysg uwch, a chyflogaeth.

Rydym wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi a pharhau i wella ein cymwysterau, ac fel rhan o'n proses datblygu cymwysterau, rydym yn ymgysylltu ag amrediad o arbenigwyr gan gynnwys academyddion ac arweinwyr yn y gweithlu i sicrhau eu bod yn datblygu'r holl setiau sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol



## Cefnogaeth ac arweiniad uniongyrchol ac o'r diwrnod cyntaf

Mae ein tîm o fwy na 350 o unigolion medrus a gwybodus wrth law i gefnogi ysgolion a cholegau gyda'r gwaith o gyflwyno ein cymwysterau.

Yn wahanol i gyrff dyfarnu eraill, rydym yn darparu cyswllt uniongyrchol ag arbenigwyr pwnc a thimau cefnogi canolfannau - i'ch helpu chi bob cam o'r ffordd.

Mae ein harbenigwyr pwnc i gyd yn gyn-athrawon/darlithwyr, ac felly maent mewn sefyllfa berffaith i roi cyngor ac arweiniad ymarferol.



## Gwella addysgu gydag adnoddau digidol am ddim

Rydym yn cydweithio'n agos ag arbenigwyr yn y sector i ddatblygu dewis heb ei ail **AM DDIM** o adnoddau a deunyddiau addysgu a dysgu dwyieithog ac adnoddau a deunyddiau i gefnogi ein cymwysterau ac i ennyn diddordeb ac ysbrydoli dysgwyr.

Mae ein pecyn o adnoddau digidol sy'n tyfu'n barhaus bellach yn cynnwys gwersi Dysgu Cyfunol, Trefnwyr Gwybodaeth a deunydd Arweiniad i'r Arholiad/Asesiad Di-Arholiad, sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a thestunau TGAU a Safon Uwch. Mae'r adnoddau ychwanegol hyn, sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, wedi'u cynllunio gan ein Tîm Adnoddau Digidol ynghyd â'n harbenigwyr pwnc.

## Yng Nghymru



Rydym yn cynnig dros **170** o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch

Gwnaethom **400,000** o gymwysterau yn 2021/22



Dros **200** o adnoddau Arweiniad i'r Arholiad ac Arweiniad i'r Asesiad Di-Arholiad

Gwnaethom farcio dros **1,000,000** o bapurau, Asesiadau Di-arholiad ac arholiadau llafar 2021/22

Dros **550** o Unedau Dysgu Cyfunol - sy'n cynnwys tua **3,500** o wersi

**1,500** o Drefnwyr Gwybodaeth



ADRAN 01

# Darparu cymwysterau, asesiadau, a chefnogaeth o'r radd flaenaf



'Mae ein harholiadau a'n hasesiadau wedi'u llunio yn ôl y safonau uchaf ac yn darparu canlyniadau dilys a dibynadwy i ddysgwyr, gan eu galluogi i wneud cynnydd ym mha bynnag lwybr y maent yn dewis ei ddilyn.'

ARWEINWYR CYMWYSTERAU DWYIEITHOG  
Y GELLIR YMDDIRIED YNDDYNT



# Rhoi sicrwydd wrth i arholiadau ddychwelyd

Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd heb arholiadau allanol ac asesiadau ffurfiol, fe wnaethom gyflwyno cymwysterau dilys a dibynadwy'r haf hwn, fel mewn blynyddoedd blaenorol, gan ystyried effaith y lleihad mewn addysgu a dysgu oherwydd y pandemig.



**Ysgrifennwyd gan Elaine Carlile**  
Cyfarwyddwr  
Cymwysterau, Asesu a Swyddog Cyfrifol

## Addasu asesiadau haf 2022

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y byddai gofynion asesu yn cael eu haddasu ar gyfer dysgwyr a fyddai'n sefyll arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2022. Oherwydd hyn, gwnaethom ryddhau addasiadau ar gyfer y rhan fwyaf o'n cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ym mis Gorffennaf 2021. Gwnaethom ystyried pob cymhwyster yn unigol a llunio addasiadau a oedd yn briodol ar gyfer pob pwnc perthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfuniad o'r canlynol:

- Symleiddio'r cynnwys a oedd yn cael ei asesu, gan sicrhau bod cysyniadau allweddol yn parhau i gael eu cynnwys.
- Lleihau gofynion yr asesu di-arholiad a llacio'r gofynion o ran sut maen nhw'n cael eu cwblhau, er enghraifft, lleihau faint o oruchwyliaeth uniongyrchol sydd ei angen.
- Cyflwyno dewis i asesiadau naill ai drwy gynnig dewis o unedau neu ddevis o gwestiynau mewn uned.
- Darparu gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer asesiadau lle nad oedd mesurau eraill yn bosib oherwydd dyluniad yr asesiad.

Ein prif nod oedd sicrhau y gallai athrawon a darlithwyr gynllunio eu haddysgu'n effeithiol a sicrhau bod dysgwyr yn cael y mwyaf o'r dysgu, gan ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau allweddol ym manylebau'r cymwysterau

## Datblygu addasiadau sy'n galluogi dilyniant dysgwyr

Ein cam cyntaf wrth ddatblygu'r addasiadau oedd nodi'r cynnwys allweddol mewn manylebau a oedd bwysicaf ar gyfer dilyniant dysgwyr.

Ymgynghorodd ein timau pwnc ag uwch arholwyr i gael cydbwysedd priodol rhwng gwneud yn iawn am y tarfu yr oedd dysgwyr wedi'i wynebu a sicrhau nad oedd eu llwyddiant yn cael ei rwystro yn eu cam nesaf o ddilyniant.

## Ymgynghori athrawon a darlithwyr i glywed eu safbwynt

Ar ôl datblygu'r addasiadau, gwnaethom lansio cyfnod ymgynghori a gynhyrchodd dros 1,200 o ymatebion gan athrawon a darlithwyr ledled Cymru. O ganlyniad uniongyrchol i'w hymgysylltiad a'u hadborth, gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau pwnc-benodol a'n gwybodaeth i ganolfannau ar ddiwedd Gorffennaf 2021, er mwyn galluogi ysgolion a cholegau i gynllunio ymlaen llaw.

Cyn tymor yr hydref 2021/22, gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth, canllawiau, a chwestiynau cyffredin i ddysgwyr ar ein gwefan i godi ymwybyddiaeth a rhoi mwy o syniad am ar agweddau penodol ar y dulliau yr oeddem yn eu defnyddio.

## Gwybodaeth ymlaen llaw

Lle nad oedd addasiadau'n bosib, neu lle nad oeddent efallai'n mynd yn ddigon pell o ran gwneud yn iawn am y tarfu yr oedd dysgwyr wedi ei wynebu, gwnaethom lunio Gwybodaeth ymlaen llaw. Cyhoeddwyd y Wybodaeth ymlaen llaw yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022 ac roedd yn nodi agweddau ar y cynnwys oedd yn debygol o gael ei asesu i helpu gwaith adolygu dysgwyr.

Rhoddodd hyn gefnogaeth ychwanegol i athrawon a darlithwyr o ran cynllunio sesiynau adolygu ar gyfer eu dysgwyr wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer yr asesiadau.

## Mewnblannu sicrhau ansawdd cadarn

Fel bob amser, gwnaethom weithredu proses sicrhau ansawdd drylwyr fel bod y canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn deillio o'n harholiadau ac asesiadau yn rhaidilys a dibynadwy. Cyflwynwyd gwiriadau ychwanegol hefyd i allu bod yn sicr bod yr holl ddeunyddiau asesu yn adlewyrchu'r addasiadau/gwybodaeth ymlaen llaw y gwnaethom eu cyflwyno.

## Cyflwyno graddio a oedd yn fwy hael na phan gafodd arholiadau eu sefyll ddiwethaf yn 2019

Roedd rhan olaf y pecyn yn cynnwys polisi newydd gan Cymwysterau Cymru,

yn canolbwyntio ar sut y byddai cymwysterau'n cael eu graddio. Ar gyfer asesiadau haf 2022, arhosodd safon y marcio yr un fath ag unrhyw flwyddyn arall, ond gweithredwyd polisi graddio mwy hael. Roedd y polisi hwn yn caniatáu inni sicrhau fod canlyniadau'n fwy hael nag yn 2019 i gyfrif am y tarfu y mae dysgwyr wedi'i wynebu, ond nid mor hael â 2021.

## Sicrhau canlyniadau dilys a dibynadwy

Rydym yn hyderus fod dysgwyr wedi derbyn graddau sydd mor gywir a theg â phosibl.

Er ein bod yn dal i weithio tuag at yr un normalrwydd â chyn y pandemig o ran asesiadau a safonau graddio, roedd yr adborth a gawsom ar ôl cyfres yr haf yn nodi bod athrawon, darlithwyr a dysgwyr yn hynod falch o bopeth maen nhw wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ac felly y dylai fod.

Drwy gydol y broses, rydym wedi darganfod pa mor bwysig yw cael cynlluniau wrth gefn a gallu addasu'n gyflym i sefyllfaoedd dynamig. Rydym wedi datblygu amrywiaeth o systemau a phrosesau newydd y gallwn ddiwynnu arnynt yn y dyfodol os byddwn yn dod ar draws sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym eto. Ein prif nod bob amser fydd darparu proses arholi deg i bob dysgwr ledled Cymru.



# Dysgu Proffesiynol sy'n llywio, ymgysylltu ac ysbrydoli

Mae ein tîm Dysgu Proffesiynol yn creu, datblygu, a chyflwyno rhaglen flynyddol, ddwyieithog o ddigwyddiadau cynnwys i helpu athrawon a darlithwyr i arwain eu dysgwyr i lwyddo.

Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG) a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i gynllunio'r rhaglen yn flynyddol. Mae eu hadborth hefyd yn allweddol i'r dylunio a'r cynnwys, gan ymateb i'w hanghenion.

## Cynnwys Dysgu Proffesiynol

Mae'r holl gynnwys wedi'i ysgrifennu, ei gynllunio, a'i gyflwyno'n ofalus gan ein harbenigwyr cymwysterau a'n harbenigwyr pwnc sydd â phrofiad helaeth ar lawr y dosbarth. Mae ein mynychwyr yn derbyn pecyn cynhwysfawr o ddeunyddiau ategol (gan gynnwys recordiadau o ddigwyddiadau ar-lein) gyda llawer o syniadau ac adnoddau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

## Themâu

**Mae ein Dysgu Proffesiynol yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, gan gynnwys:**

- Rhoi adborth gwerthfawr ynghylch asesiadau diweddar i lywio'r dasg o gynllunio a pharatoi dysgwyr ar gyfer asesiadau yn y dyfodol.
- Cefnogi athrawon/darlithwyr i baratoi a chynllunio ar gyfer cyflwyno cynnwys manyleb newydd neu ddiwygiedig.
- Gweithdai thematig sy'n archwilio dulliau addysgegol a gwella

sgiliau ymarferwyr.

**Mae uchafbwyntiau diweddar i'n Dysgu Proffesiynol yn cynnwys:**

- Dulliau o ran amrywiaeth yn y meysydd Drama ac Astudiaethau Ffilm.
- Addysgu cysyniadau anoddach yn Safon Uwch Y Gwyddorau.
- Dysgu gramadeg yn Saesneg.
- Datblygu gwytnwch darllen mewn leithoedd Tramor Modern.
- Dulliau o ddatblygu cyflymiad gwybyddol.

## Mynediad hbylg

**Mae ein hamrywiaeth o gyrsiau dysgu proffesiynol yn cael eu cyflwyno:**

- Yn fyw ar-lein (sesiynau hwyrnos).
- Diwrnod llawn wyneb-yn-wyneb.
- Drwy ein gwefan, lle gall mynychwyr gael mynediad at weminarau sydd wedi'u recordio ymlaen llaw a deunyddiau Dysgu Proffesiynol.



Rydym yn cyflwyno mwy na **300** o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol bob blwyddyn, yn ymdrin ag amrywiaeth o destunau, themâu a phynciau, ac rydym yn hyderus y byddant yn ddifyr, yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol i'n hathrawon. Cyflwynir pob cwrs wedi'i deilwra gan ein tîm o arbenigwyr, gan gynnig hyfforddiant ac adnoddau cefnogol a fydd yn gwella eu haddysgu er lles eu dysgwyr.



**Nia Jones**  
Rheolwr Datblygu  
Dysgu Proffesiynol



**Mae 300** o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal un flynyddol

Mae mwy na **8,000** o bobl yn mynychu ein digwyddiadau bob blwyddyn

Mae dros **90%** o'r rhai sy'n mynychu yn gwbl fodlon, neu'n rhannol fodlon â'u cwrs

ADRAN 02

# Llunio dyfodol addysg yng Nghymru

“

Rydym yn creu cymwysterau perthnasol, deniadol a chynhwysol sy'n rhoi llwyfan i ddysgwyr ar gyfer eu datblygiad.



# Dylunio a chyflwyno cymwysterau sy'n addas ar gyfer y dyfodol yng Nghymru

Gyda gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru, mae Alun McCarthy, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymwysterau (TGAU/TAG), yn rhannu ei farn am rôl CBAC o ran helpu i lunio cyfres o gymwysterau TGAU sy'n addas ar gyfer y dyfodol.



**Ysgrifennwyd gan Alun McCarthy**  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymwysterau (TGAU/TAG)

Yn hydref 2021, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ei adroddiad, 'Cymwys ar gyfer y dyfodol: Y dewis cywir i Gymru', yn amlinellu ei benderfyniadau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cenhedlaeth newydd o ddysgwyr TGAU yng Nghymru.

Er nad ydym eto wedi cyrraedd y cam o ysgrifennu manylebau newydd, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid o ran lle rydym arni yn y broses, yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd, a beth fydd ein rôl wrth i ni symud ymlaen, i sicrhau bod cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yng Nghymru wir yn addas ar gyfer y dyfodol.

I'w dyfarnu gyntaf yn 2027, mae'r gyfres newydd hon o gymwysterau wedi'i chynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd Cymru, sef y cyfnod mwyaf o ddiwygio addysgu a dysgu gan Lywodraeth Cymru a welwyd ers blynyddoedd lawer. Digwyddodd y rhaglen olaf o ddiwygio TGAU rhwng

2014 a 2016, a'r hyn rydym am ei weld dros y blynyddoedd sydd i ddod fydd rhaglen o newidiadau ar draws amrywiaeth lawn o gymwysterau gan gynnwys ychwanegu sawl cymhwyster TGAU newydd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, gan gyfrannu at eu dull cyd-awduro o ran llunio cymwysterau newydd. Rydym ni, ynghyd â nifer o randdeiliaid eraill, gan gynnwys athrawon ledled Cymru, wedi cyfrannu at drafodaethau am yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer y cymwysterau newydd, ynghyd â manylion ar gyfer meysydd pwnc unigol. Yr hyn ydym yn ei gyfrannu at y trafodaethau hyn yw ein gwybodaeth pwnc manwl a'n harbenigedd o ran asesu.

Rydym yn deall bod Cymwysterau Cymru yn bwriadu ymgynghori ar gynigion yn ystod tymor yr hydref hwn. Yn ystod misoedd cyntaf 2023, gobeithiwn y bydd y gofynion rheoleiddio ar gyfer pob cymhwyster ar gael fel y gallwn ddechrau ar ein proses datblygu cymwysterau.



**Nawr y mae'r gwaith yn cynyddu i ni fel bwrdd arholi, wrth i ni ddechrau datblygu manyleb newydd i bob un o'r cymwysterau TGAU newydd yn y gyfres.**

O sefydlu grwpiau cynghori ar gyfer pob cymhwyster, sy'n cynnwys arbenigwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, i ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, byddwn ni'n parhau â dull cydweithio a datblygu ar y cyd Cymwysterau Cymru o ran datblygu cymwysterau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cwrrd â phob un o'r gofynion rheoleiddio wrth ddatblygu cymwysterau sy'n ymgysylltu ac yn ysbrydoli dysgwyr ar yr un pryd â'u paratoi at y dyfodol.

Byddwn hefyd yn cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer pob cymhwyster, ac ni ddylid tangyfrif pwysigrwydd hynny. Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y garfan gyntaf fynediad at amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n enghreifftiau o sut bydd dylunio yr asesiadau newydd hyn yn edrych. Bydd rhan o'n rhaglen gefnogi hefyd yn cynnwys canllawiau am ddim i athrawon ynghyd â digwyddiadau Dysgu Proffesiynol ar gyfer pob cymhwyster, fel bod gan ymarferwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i addysgu'r cymwysterau newydd o 2025.

Mae hon yn rhaglen waith enfawr ond yn un yr ydym wedi bod yn paratoi ar ei gyfer ers blynyddoedd lawer yn barod. Yn syml iawn, mae'n rhaid i gymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed newid i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. I'r newid hwn fod yn llwyddiant, rhaid cael perthynas glir rhwng y cwricwlwm newydd a'r cymwysterau y mae dysgwyr yn eu gwneud, gan adeiladu ar yr addysgu a'r dysgu a wneir cyn Blwyddyn 10.

Mae'n hanfodol bod y cymwysterau yn ennyn hyder y cyhoedd ac yn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i ddysgwyr wneud cynnydd, pa bynnag lwybr gyrfa maen nhw am ei ddewis, yng Nghymru neu y tu hwnt.

**Ein nod yn y pen draw yw datblygu cyfres o gymwysterau TGAU, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n hylaw, yn ddifyr, ac yn berthnasol.**

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â Cymwysterau Cymru wrth i ni symud drwy'r flwyddyn academaidd nesaf hon, ac yn disgwyl y byddwn yn rhoi mwy o'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i ni ddechrau ar y cyfnod newydd tyngedfennol hwn.



**“Wrth i ni symud ymlaen o ran dylunio cymwysterau newydd i gefnogi cyflwyno cwricwlwm newydd Cymru, ein rôl fydd sicrhau bod y dyfarniadau hyn yn addas ar gyfer y dyfodol.”**



# Datblygu'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd

Rydym yn falch iawn bod ein cymhwyster newydd, Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru wedi ei gymeradwyo'r haf hwn. Mae'n gymhwyster cyffrous ac arloesol a fydd yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch bresennol. Bydd ar gael i ddysgwyr o fis Medi 2023, ac yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2025.



Ysgrifennwyd gan  
**Dr Rachel Dodge**  
Swyddog Datblygu  
Cymwysterau



Darganfod mwy: [www.wjec.co.uk/BSCUwch](http://www.wjec.co.uk/BSCUwch)

Mae Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru wedi'i lunio i roi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio testunau cyfredol sydd o ddiddordeb iddynt, datblygu eu ffordd o feddwl, ehangu eu dealltwriaeth o'r byd, eu hannog i gymryd rhan mewn ymgysylltu dinesig beirniadol, ac ystyried eu llesiant eu hunain a llesiant pobl eraill.

Er enghraifft, fel rhan o Broiect Cymuned Byd-eang y cymhwyster, gallai dysgwyr ddewis archwilio testunau fel tlodi plant neu'r gwrthdaro diweddar yn Wcráin a byddant yn gallu ffurfio eu barn eu hunain ynghylch cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r themâu yn y tri phroject yn eang ac yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunydd, felly mae yna wir rywbeth a fyddai o ddiddordeb i bob dysgwr, i gyd yng nghyd-destun Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a'r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer eu dyfodol, boed hynny'n ddilyniant i addysg uwch, byd gwaith, neu brentisiaethau, ac yn adlewyrchu'r ethos sgiliau a ddangosir yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

## Cael mewnwelediad i'n helpu i ddylunio'r cymhwyster gorau

Yn ystod proses ddatblygu unrhyw gymhwyster, rydym yn defnyddio strategaeth ddwys o ymgysylltu â rhanddeiliaid, nid oedd y broses yn wahanol o ran Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Dechreuon ni ar ein gweithgaredd cwmpasu yn hydref 2021, gan gynnal 14 o weithdai a fynychwyd gan dros 100 o gynrychiolwyr. Roedd cael cynrychiolaeth eang yn y grwpiau hyn yn allweddol i ni, ac roeddem yn falch o weld ymarferwyr, athrawon a darlithwyr, gweithwyr proffesiynol addysg uwch, cyflogwyr, sefydliadau rhanddeiliaid, a hyd yn oed rhieni yn cymryd rhan yn y gweithdai.

Chwaraeodd dysgwyr rôl hanfodol hefyd drwy gydol ein proses ddatblygu. Gwnaethom groesawu 48 o ddysgwyr drwy 5 o grwpiau ffocws dysgwyr, yn ogystal â chynnal holiaduron ar-lein ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Roedd yr adborth gwerthfawr a gawsom o'r gweithgareddau cwmpasu hyn yn help mawr i lunio ein cynnig ac i'n harwain at ein dyluniad amlinellol o'r cymhwyster a gyflwynwyd i Cymwysterau Cymru yn Hydref 2021.

Arweiniodd y gweithdai hefyd at sefydlu dau grŵp newydd: ein Grŵp Cyngori ar Ddatblygu Cymwysterau, a'n Grŵp Cyngori Dysgwyr.


Trwy gydol proses ddatblygu'r cymwysterau, roedd y ddau grŵp hyn wedi chwarae rôl hanfodol wrth brofi a mireinio ein manyleb a deunyddiau asesu a byddant yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth i ni symud yn nes at y cyfnod cyflwyno. Mae'r ymarferion cwmpasu hyn a ffurfio'r grwpiau cyngori i gyd yn ymwneud â herio rhagdybiaethau a phrofi ein gweledigaeth, gan ailystyried gyda rhanddeiliaid beth yw pwrpas y cymhwyster, a chynnwys amrywiaeth eang o safbwyntiau

## Rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar athrawon a darlithwyr

Mae llawer mwy i'w wneud eto rhwng nawr a mis Medi 2023 i gefnogi ymarferwyr wrth iddyn nhw baratoi i gyflwyno'r cymhwyster.

Byddwn ni'n datblygu cyfres newydd o adnoddau am ddim i ddysgwyr ac athrawon, gan gynnwys modiwlau dysgu cyfunol, ac adnoddau Cydymaith Cwrs. Bydd cefnogaeth bellach hefyd yn cael ei darparu drwy raglen ddysgu broffesiynol, gyda digwyddiadau a sesiynau wedi'u trefnu ledled Cymru.

Rydym yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma, ac yn edrych ymlaen at ymgysylltu ag athrawon, darlithwyr, a dysgwyr yn ystod y misoedd nesaf.



# Ysbrydoli dysgwyr galwedigaethol ein cenedl



**Ysgrifennwyd gan Sarah Harris**  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol  
Cymwysterau Galwedigaethol

## Gyda'r flwyddyn academiaidd newydd ar waith, bydd llawer ohonoch mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru bellach wedi dechrau addysgu ein cyfres newydd o Gymwysterau Galwedigaethol.

Mae'r cymwysterau Lefel 1 / 2, sydd wedi'u llunio ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn gweddu'n berffaith i ddysgwyr sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymarferol, gan astudio cymhwyster sy'n gadarn ac o werth cyfartal i TGAU. Mae'r gyfres newydd hon yn adfywio ar lefel eang ein cymwysterau galwedigaethol presennol, sydd wedi bod ar waith ers 2014. Mae'r gyfres newydd yn cynnwys naw pwnc, yn eu plith Peirianeg, Busnes Adwerthu, a'r Celfyddydau Perfformio.

Yr hyn sydd wir yn gosod y cymwysterau ar wahân yw faint o gynnwys 'ymarferol' y bydd cyfle i ddysgwyr ei ddysgu a'i ddarganfod. Mewn gwirionedd, mae 60% o gynnwys pob un o'n cymwysterau galwedigaethol yn ymarferol; gan felly gyferbynnu'n sylweddol â'r cymwysterau TGAU lle mae'r ffocws yn llawer mwy ar addysgu cynnwys mewn ffordd d raddodiadol.

Gyda dysgu drwy brofiad yn graidd iddynt, bydd y gyfres newydd yn galluogi dysgwyr i gryfhau eu sgiliau a'u dealltwriaeth drwy ymgysylltu â thasgau a gweithgareddau ymarferol go iawn. Er enghraifft, bydd dysgwyr Lletygarwch ac Arlwyio yn cael dylunio bwydlenni, paratoi bwyd, a gweini cwsmeriaid.

Er bod y 40% arall o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy arholiad, bydd y rhain yn gydadferol. Felly, os yw dysgwr yn cael trafferth yn yr arholiad ond yn rhagori yn eu dysgu ymarferol, bydd y pwysoli'n cydbwysu.

Mae hyn yn allweddol i ddysgwyr sydd ddim yn perfformio'n dda mewn amgylchedd arholiad ond sydd fel arall yn alluog iawn. Mae'n lleihau'r rhwystr terfynol hwnnw iddyn nhw, gan eu galluogi i ennill y radd maen nhw'n ei haeddu. Celfyddydau Perfformio yw'r unig eithriad, lle bydd dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn asesiad allanol sy'n seiliedig ar broject.

Fel gydag unrhyw gymhwyster newydd neu wedi'i adnewyddu, rydym wedi bod drwy broses ddatblygu drylwyr. Sefydlwyd grŵp cynghori ar gyfer pob pwnc. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys ymarferwyr profiadol yn y maes, ysgolion, a gweithwyr proffesiynol addysg bellach, yn barod at y dysgwr yn symud ymlaen i amgylchedd coleg. Mewnwelediad yw popeth, ac rydym hefyd wedi ymgynghori â dysgwyr drwy arolwg ar-lein.

Roedden ni wir eisiau cael eu hadborth ar yr hyn a oedd yn ddifur iddynt, beth nad oedd efallai mor ddefnyddiol, ac unrhyw rwystrau roedden nhw wedi dod ar eu traws yn ystod eu hastudiaethau.



Wrth gwrs, mae'n bwysig bod ein cymwysterau yn adlewyrchu newidiadau yn y diwydiant, yr arfer proffesiynol gorau, a'r tuaddiadau diweddaraf. Mae angen i ni sicrhau bod ein dysgwyr galwedigaethol yn cael cyfle i ddysgu'r holl sgiliau a gwybodaeth sydd ei angen arnynt ar gyfer y dyfodol.

**Rydym hefyd wedi ailwampio ein proses fonitro barhaus; mae hyn yn golygu ein bod ni nawr mewn sefyllfa gryfach i nodi unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'n cymwysterau. Ar yr un oryd mae angen i ni sicrhau bod newidiadau ond yn cael eu gwneud pan mae'n angenrheidiol. Rydyn ni'n deall pa mor bwysig yw hi i athrawon gael cysondeb a bod yn gwbl hyderus a chyfarwydd o ran eu pwnc.**

Mae'r broses ddatblygu wedi bod yn dasg enfawr i bawb sy'n rhan o'r broses; ond mae wedi bod yn werth chweil. Rwy'n hyderus ein bod ni wedi datblygu cyfres newydd o gymwysterau y gall CBAC, a'r gymuned addysg ehangach, fod yn hynod falch ohoni.

Mae cyflwyno am fod yn allweddol, ac rydyn ni yma i gefnogi ysgolion a cholegau pob cam o'r ffordd. Rydyn ni yma i wneud addysgu ein dyfarniadau galwedigaethol newydd mor syml â phosib, ac mae ein timau pwnc arbenigol

wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad. Rydym eisoes wedi cyflwyno cefnogaeth a gwybodaeth gynhwysfawr o ran pynciau, gan gynnwys canllawiau ar gyfer unedau unigol, ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gwrslyfr ar gyfer pob cymhwyster; er bod y rhain ar gyfer y dysgwr yn bennaf, maen nhw wir yn mynd i helpu athrawon/darlithwyr wrth gefnogi cyflwyno pynciau. Rydym yn hyderus ein bod wedi creu cyfres gynhwysfawr o gymwysterau a fydd yn rhoi pob cyfle i ddysgwyr Cymru gyrraedd eu potensial.

Mae'r tirwedd addysg alwedigaethol yn parhau i esblygu, ac fel prif fwrdd arholi Cymru rydym wedi ymrwymo i fod yn flaenllaw o ran datblygiadau newydd ac arloesi. Mae yna rai meysydd pwnc a chyfleoedd newydd cyffrous y byddwn yn eu harchwilio yn y dyfodol agos; ac rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â Cymwysterau Cymru ynglŷn â'r cwricwlwm newydd i'w cefnogi wrth iddyn nhw gyflwyno eu gweledigaeth ar gyfer addysg yn y dyfodol.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymwneud â datblygu cymwysterau; ac wrth i'r tymor newydd ddechrau, rydym yn edrych ymlaen at gydweithio'n agos ag ysgolion, colegau a dysgwyr er mwyn sicrhau bod eu taith gyda ni yn parhau i fynd o nerth i nerth am flynyddoedd lawer i ddod.

**Mae'r tirwedd addysg alwedigaethol yn parhau i esblygu, ac fel bwrdd arholi mwyaf blaenllaw Cymru rydym wedi ymrwymo i fod yn flaenllaw o ran datblygiadau newydd ac arloesi.'**

# Arwain y ffordd o ran deunyddiau asesu hygyrch

## HYGYRCHEDD

Ni yw'r bwrdd arholi cyntaf yn y DU i ddatblygu canllaw yn amlinellu sut i gynhyrchu deunyddiau asesu hygyrch a chynhwysol i ddysgwyr lliwddall.

Mae ein [Canllawiau ar gyfer Sicrhau Hygyrchedd i Bobl](#) Lliwddall, sydd wedi'i lunio ar y cyd â'r sefydliad dielw 'Colour Blind Awareness', yn codi ymwybyddiaeth am y cyflwr, yn esbonio sut y gall defnyddio lliw mewn asesiad effeithio ar ddysgwyr gyda lliwddallineb, ac yn amlinellu'r camau ymarferol y gellir eu cymryd i oresgyn yr heriau hyn. Mae'n adnodd arfer gorau ar gyfer awduron papurau cwestiynau a staff ysgolion neu golegau sy'n gweithio ar asesiadau.



**Sally Melhuish**  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol  
Cymwysterau ac Asesu

“Mae sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle cyfartal wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n bwysig ein bod yn herio ein hunain i feirniadu'n wrthrychol ddeunyddiau asesu, adnoddau, ac unrhyw ddogfennau eraill rydym yn eu cynhyrchu'n. Ac hefyd fynd ati i adolygu'r rhain drwy lygaid ein cynulleidfaoedd arfaethedig i ddileu rhagfarn, gwahaniaethu, ac anfantais.”

Trwy rannu arferion gorau, ein nod yw codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn a sicrhau bod y defnydd o liw ym mhob un o'n hadnoddau, cyfathrebu a chynnwys digidol yn hygyrch i bawb.

# Wedi ymrwymo i greu cymwysterau amrywiol a chynhwysol

Yn CBAC, rydym ni'n cymryd amrywiaeth a chynhwysiant o ddifrif. Rydym wedi cymryd y camau cyntaf i sicrhau bod amrywiaeth o gynrychiolaeth o ran hil, ethnigrwydd, rhyw a rhywedd wedi'u cynnwys yn ein cymwysterau.

## Drama a Theatr

Mae myfyrwyr sy'n gwneud ein cymwysterau TGAU Drama a Safon Uwch Drama a Theatr yn gallu astudio amrywiaeth ehangach o destunau o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a chynnodau. Mae'r testunau newydd yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu, o dderbyn LHDC+ acanghydffurfio o ran rhywedd i ethnigrwydd, mudo, ac aeddfedu (coming-of-age).

Rydym wedi ychwanegu cyfanswm o **29** o destunau newydd i'n cymwysterau Drama. Dewiswyd 15 o'r rhain wrth weithio mewn partneriaeth â'r London Theatre Consortium a'i partneriaid yn y gweithgor Representation in Drama.

Mae'r testunau yn cynnig digon o gyfle i ail-ddehongli oherwydd eu cynnwys, eu cymeriadau, a'u theatrigrwydd.

Gan apello at drawstoriad eang o ddysgwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chymdeithasol.

## Saesneg Iaith a Llenyddiaeth

Mae ein cymwysterau Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn cynnig testunau sy'n archwilio materion cyfoes, gan gynnig dewisiadau sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysoldeb. Gall dysgwyr hefyd ddewis astudio testunau gan awduron o wahanol hiliau, dosbarthiadau, rhyweddau, a rhywioldebau.

## Astudiaethau Ffilm

Mae ein cymhwyster TGAU mewn Astudiaethau Ffilm bellach yn cynnwys **13** testunau newydd sy'n galluogi'r dysgwyr i archwilio safbwyntiau gwahanol.

### Mae'r testunau yn cynnwys:

- **7** Ffilm wedi eu cyfarwyddo gan fenywod
- **8** Ffilm sydd â menywod yn awdur sgript y ffilm
- **9** Ffilm sydd â menywod fel prif gymeriad
- **5** Ffilm sydd â chyfarwyddwyr o'r Mwyafrif Byd-eang
- **5** Ffilm sydd â phrif gymeriad o'r Mwyafrif Byd-eang



**Wyn Jones**  
Swyddog Pwnc Drama

“Mae adborth hyd yma wedi bod yn wych, gyda llawer o athrawon yn canmol yr amrywiaeth o destunau, a'r cynhwysoldeb y maent bellach yn ei gynnig.”

ADRAN 03

# Gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth

“

Mae deialog agored yn helpu i lywio ein ffordd o feddwl ac yn herio ein dull o wneud ein gwaith mewn ffordd adeiladol.



# Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid

Fel sefydliad, rydym yn ymgysylltu ac yn cydweithio ag amrediad eang o randdeiliaid, o Gymru ei hun a thu hwnt. Mae deialog agored yn helpu i lywio ein ffordd o feddwl ac yn herio ein dull o wneud ein gwaith mewn ffordd adeiladol; o ddatblygu cymwysterau newydd i newidiadau i ddarparu asesiadau.

Rydym yn ymgysylltu â sawl grŵp cynghori, gan gynnwys ein Grŵp Ymgynghorol Cymru a'n Grŵp Cyfeirio Prifathrawon, ac mae'r ddau'n rhoi adborth a chefnogaeth amhrisiadwy.

Mae Grŵp Ymgynghorol Cymru yn rhoi cyfle amhrisiadwy i drafod materion polisi â chydweithwyr gwybodus o amrywiaeth o gefndiroedd a safbwyntiau. O ystyried cyflymdra diwygio addysgol yng Nghymru, mae'r Grŵp yn allweddol i gael gwell darlun o'r heriau penodol sy'n wynebu gwahanol rannau o'r gymuned y gallaf wedyn eu hadlewyrchu yn ein polisiau.

**Dr Rachel Bowen, cyn Gyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Colegau Cymru**

Fel rhan o ddatblygu'r cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd, mae ein Grŵp Cynghori ar Ddatblygu wedi ein galluogi i goladu amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y sector a'r diwydiant addysg a fydd yn sicrhau hirhoedledd y cymhwyster hwn.

Mae aelodau yn cynrychioli amrywiaeth o gyrff gan gynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Brunel, Coleg Cambria, Iungo Solutions a Chynllun Addysg Peirianeg Cymru.

Roeddwn yn awyddus i gymryd rhan yn y grŵp cynghori ar gyfer y cymhwyster hwn oherwydd bod ganddo bwyslais cyffrous ar ymdrechion addysgol sydd â'r potensial i fod yn drawsnewidiol ar y pwynt y mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan ynddo, yn ogystal â chyfrannu at eu dyfodol.

**Dr Anne Chappel, Pennaeth yr Adran Addysg, Prifysgol Brunel**



# Cynllun Bwrsari Gareth Pierce:

## Cefnogi addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ym mis Mawrth 2022, roeddem yn hynod o falch i lansio'r cynllun bwrsari cyntaf CBAC er anrhydedd i'n cyn Brif Weithredwr - Gareth Pierce.

Roedd Gareth yn gweithio'n ddiflino i gefnogi dysgwyr o Gymru gyfan drwy gydol ei yrfa. Bu'n gwneud hyn yn ystod ei gyfnod yn CBAC a gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn anffodus, bu farw Gareth yn 2021, a sefydlwyd y bwrsari hwn yn rhodd teilwng i goffáu ei amser a'i waith. Mae'r bwrsari hwn yn cefnogi israddedigion sy'n astudio BSc Mathemateg o fis Medi 2022 drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn rhoi swm o £3,000 i dri o fyfyrwyr, bob blwyddyn, ac mae'n cael ei weinyddu drwy gymorth caredig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



**Ian Morgan**  
Prif Weithredwr

Arwydd bach o ddiolch gan CBAC yw'r bwrsari newydd hwn am ddylanwad enfawr ac effaith pellgyrhaeddol Gareth. Roedd yn fathemategydd brwd ac yn eiriolwr cryf dros ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a theimlwn fod y bwrsari hwn yn cyfleu'n ddelfrydol ei werthoedd a'i gredoau.

SADRAN 04

# Buddsoddi yn ein pobl a'n planed

“

Mae'r un cyfrifoldeb gennym i feithrin a hwyluso twf a llesiant ein pobl ein hunain â'r hyn sydd gennym i warantu planed iach i genedlaethau'r dyfodol fyw arni.



# Buddsoddi yn ein pobl

Fel corff, rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella, gan sicrhau bod gennym yr egwyddorion a'r arferion cywir ar waith. Rydym am i'n pobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod yn rhan o gorff lle gallant dyfu a datblygu.



**Elizabeth East**  
Uwch Bartner Busnes AD

Rydym yn falch iawn o fod wedi ennill **achrediad** safonol 'Buddsoddwyr Mewn Pobl' ym mis Rhagfyr 2021.

“ Mae hwn yn gryn gamp i CBAC. Mae'n wych cael ein cydnabod yn allanol ac i fod yn rhan o gorff sydd wir eisiau gwneud newid cadarnhaol! ”

Cawsom ganmoliaeth gan Paul Devoy, Prif Swyddog Gweithredol Buddsoddwyr mewn Pobl:

“Hoffem longyfarch CBAC am gael ei achredu â 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. Mae hyn yn ymdrech ryfeddol i unrhyw gorff, ac yn rhoi CBAC mewn cwmni da gyda lluo o gyrrff sy'n deall gwerth pobl.”

Bydd y fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl yn ein helpu i wella perfformiad a gwireddu ein hamcanion drwy'r ffordd yr ydym yn rheoli ac yn datblygu ein pobl. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ni symud ymlaen drwy'r fframwaith, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi a datblygu ein pobl.

Fel rhan o'n taith Buddsoddwyr mewn Pobl, rydym wedi cyflwyno cyfres o gynlluniau mewnol i adeiladu, cefnogi ac asesu ein diwylliant o welliant a thwf parhaus.

**INVESTORS IN PEOPLE™**  
We invest in people Standard  
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon

# Wedi ymrwymo i gynaliadwyedd

Rydym yn hynod ymwybodol o'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo i leihau'r effaith honno.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella ein cymwysterau amgylcheddol. Rydym wedi prynu offer a gwasanaethau newydd er mwyn ein helpu i leihau ein ôl troed carbon. Mae'r rhain naill ai wedi lleihau ein hallbwn CO2 neu wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol drwy brynu o ffynonellau neu gyflenwyr cynaliadwy.

Ar ôl gweithredu ein holl systemau monitro ynni, roeddem yn gallu lleihau ein defnydd o:


214,000 litr



sy'n cyfateb i ail-lenwi **10,000** o ffynhonnau dŵr



↑↑↑ **30,475 kWh**  
o drydan sy'n cyfateb i'r defnydd o drydan blyneddol mewn dros **150** o ysgolion uwchradd.



153,210  
litr o nwy =



Yn ogystal, ac ers cyflwyno gweithio hybrid, mae ein defnydd o ynni wedi lleihau'n esbonyddol, ac mae ffigurau heddiw yn llawer is na'r cyfnod cyn y pandemig.

Mae ein gallu i gefnogi'r ymdrech i leihau'r cynnydd yn y tymheredd byd-eang yn rhywbeth y teimlwn y gallem, ac y dylem wneud cyfraniad cadarnhaol ato.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar gynllun datgarboneiddio 10 mlynedd, fydd yn lleihau ein hól troed carbon hyd yn oed ymhellach.

Rydym wedi lleihau dros

**60%**

mewn nwy a thros 50% yn y defnydd o drydan

**ARWEINWYR CYMWYSTERAU DWYIEITHOG Y GELLIR YMDDIRIED YNDDYNT :  
YR HOLL WYBODAETH YN GYWIR AR ADEG CYHOEDDI: MIS 2022**

---

**WJEC CBAC Ltd**  
245 Rhodfa'r Gorllewin,  
Caerdydd, CF5 2YX

**T:** 029 2026 5000  
**E:** gwybodaeth@cbac.co.uk

**DILYNWCH NI AR Y CANLYNOL:**

